
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	16.07.21
Pwnc / Subject:	Canllawiau a chod y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir, ar y cyfan, ac yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n cyfeirio'n dda at y pedwar diben ac yn creu cysylltiadau addas â medrau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi digon o ymreolaeth i ysgolion a lleoliadau ddylunio eu cwricwlwm eu hunain tra'n dangos agweddau pwysig y dylent eu cynnwys fel rhan o'u proses ddylunio.

Yn ein hymateb, rydym wedi awgrymu rhai ystyriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru, i gryfhau'r canllawiau, sef:

- Addasu trefn rhai datganiadau wrth ddiffinio ac ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Diwygio'r derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â'r tri cham yn natblygiad dysgwyr
- Diwygio'r derminoleg mewn perthynas â pholisi'r ysgol neu'r lleoliad o 'argymhellir' i 'dylai' gael polisi
- Diwygio'r derminoleg mewn perthynas â threfnu bod polisi'r ysgol neu'r lleoliad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gael 'i'w archwilio' gan rieni a gofalwyr, i 'i'w weld' gan rieni a gofalwyr
- Cynnwys canllawiau ar gyfer ysgolion neu leoliadau ag iddynt gymeriad crefyddol

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Math o ymatebwr (dewiswch un o blith y canlynol)

Plentyn neu berson ifanc	<input type="checkbox"/>	Cyflogwr / cynrychiolydd busnes	<input type="checkbox"/>
Rhiant / gofalwr	<input type="checkbox"/>	Corff proffesiynol / grŵp â diddordeb	<input type="checkbox"/>
Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol	<input type="checkbox"/>	Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu gydweithredol, crefyddol, sefydliad nid er elw)	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr ysgol brif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwydd addysgu, ac ati.)	<input type="checkbox"/>	Consortiwm rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff UCD, staff ysgol annibynnol, darparwr arall, ac ati.)	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>

Addysg uwch (yn cynnwys prifysgolion / sefydliadau academaidd)	<input type="checkbox"/>	Addysg bellach	<input type="checkbox"/>
Gwleidydd (Aelod o'r Senedd, cynghorwyr sir, AS, ac ati.)	<input type="checkbox"/>	Grŵp ymatebwyr arall nad yw wedi ei restru uchod, nodwch: Estyn	✓
Lobiwr	<input type="checkbox"/>	Mae'n well gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod yr esboniad o'r diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	✓	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------	---------------	---	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae'r esboniad ar gyfer addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir yn y canllawiau, ac yn cyfeirio at statws cyfreithiol y thema drawsbynciol, yn enwedig cael gwared ar yr hawl flaenorol i dynnu'n ôl. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ddylunio eu cwricwlwm.

Rydym yn awgrymu y byddai'n well rhoi'r esboniad o'r diffiniad fel y paragraff agoriadol yn yr adran hon, yn hytrach na fel y trydydd paragraff.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion ar gyfer ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	✓	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------	---------------	---	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae'r canllawiau yn datgan yn glir y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan o ddull integredig ysgol gyfan. Atgyfnerthir hyn trwy ddatgan, ym mhwynt pedwar y rhestr o egwyddorion, y bydd pob ymarferwr yn cyfrannu at ei chyflwyno, a bydd angen dysgu proffesiynol addas. Rydym yn awgrymu, er mwyn eglurder, y dylid symud pwynt pedwar yn y rhestr i fod yn bwynt dau. Ym mhwyntiau dau a chwech, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw ysgolion yn dehongli gofyniad 'arbenigedd, amser ac adnoddau arbenigol' i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb trwy arbenigwyr allanol mewn digwyddiadau untro, gan fod hyn yn groes i ddull ysgol gyfan i'w gyflwyno gan bob aelod o staff.

Mae canllawiau presennol yn datgan yn glir y dylai cyflwyno fod yn gynhwysol, yn ddatblygiadol briodol a rhoi gwerth ar amrywiaeth mewn cwricwlwm sy'n datblygu'n gylchol ar sail profiadau go iawn y dysgwyr.

Gallai fod yn ddefnyddiol ychwanegu pwynt arall at y rhestr o egwyddorion i gofnodi bod yn rhaid i iaith ac ymddygiad staff, a chynnwys yr adnoddau addysgu a dysgu a ddefnyddir ar draws y cwricwlwm cyfan, fod yn gyson â nodau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod strwythur a chynnwys y canllawiau yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------	---------------	-------------------------------------	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae strwythur a chynnwys y canllawiau yn glir i ysgolion a lleoliadau ddatblygu eu cwricwlwm. Mae canllawiau ychwanegol ar gyfer disgyblion ag ADY ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ag iddynt gymeriad crefyddol yn ddefnyddiol ac yn egluro sefyllfa gyfreithiol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn ychwanegol, mae'r canllawiau'n atgoffa ysgolion am y gofyniad iddynt gydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cwestiwn 4 – Rydym yn cynnig y bydd y cynnwys a amlinellir yn nhri cham eang y canllawiau yn dod yn orfodol fel rhan o'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ydych chi'n cytuno eu bod yn cwmpasu'r hyn sy'n bwysig am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer oedrannau a chamau datblygiadol yr holl ddysgwyr?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------	---------------	--------------------------	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae cynnwys o fewn y tri maes yn glir a'r tri cham eang yn berthnasol i ddatblygiad disgyblion, ar y cyfan. Bydd hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu cwricwlwm mewn ffordd sy'n 'briodol yn ddatblygiadol'. Fodd bynnag, mae'r tri cham yn cysylltu â'r cyfnod sylfaen presennol, cyfnod allweddol 2 a sectorau uwchradd, ac efallai na fyddant yn gydnaws â newidiadau corfforol, meddyliol ac emosiynol dysgwyr. Yn ychwanegol, cyfeirir at 'y glasod' fel 12-16 oed ar gyfer y cwricwlwm 3-16 hwn, ond eto ystyrir yn gyffredinol bod y glasod yn dechrau pan fydd plant yn 10 oed. Felly, gallai defnyddio'r term hwn fel pwynt cyfeirio achosi dryswch.

Yn gyffredinol, mae'r meysydd a amlinellir yn y cod gorfodol yn cwmpasu meysydd pwysig o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac yn cysylltu'n glir â'r Datganiadau Beth sy'n Bwysig ym maes dysgu a phrofiad lechyd a Lles.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno bod adran y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y canllawiau yn glir a phriodol?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------	---------------	--------------------------	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Ceir canllawiau clir i bob ysgol gael polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar waith, y gellir ei rannu â rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, dylai'r derminoleg fod yn fwy pendant, a chael ei haddasu o 'argymhellir' i 'dylai', o ystyried statws cyfreithiol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol.

Mae rolau'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn glir, yn ogystal â staff perthnasol, er na ddywedir yn glir yma y dylai fod yn ofynnol i bob ymarferwr gymryd rhan mewn cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ni waeth beth yw ei arbenigedd pwnc na'r ystod oedran y mae'n ei haddysgu.

Ceir datganiad clir i ysgolion fanteisio ar ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer staff i'w galluogi i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r themâu cylchol, gan feithrin gwybodaeth ac ysgogi dysgu blaenorol a phrofiadau go iawn.

Ar dudalen 10 y canllawiau drafft, gallai'r datganiad 'polisi cyfoes ar gyfer rhieni a gofalywr sydd ar gael i'w archwilio gan rieni a gofalywr' achosi dryswch ynghylch ar gyfer pwy mae'r polisi wedi ei ysgrifennu. Er enghraifft, mae defnyddio'r gair 'archwilio' yn awgrymu asesu a chraffu, yn hytrach na defnyddio term fel 'gweld'. Gallai ysgolion, lleoliadau a rhanddeiliaid weld mai diben y polisi yw bodloni arolygiad neu arolygiaeth.

Ceir cydberthynas rhwng y canllawiau statudol a chynnwys polisi ac arweiniad arolygu Estyn ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, sy'n pwysleisio bod pob agwedd ar fywyd ysgol yn perthyn i'w gilydd, ac mai cyfrifoldeb pawb yw cadw dysgwyr yn ddiogel.

Ar dudalen 11, mae'r egwyddorion i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir mewn dull ysgol gyfan, wedi eu hintegreiddio ar draws y cwricwlwm. Mae'r lle i arbenigwyr gynorthwyo â'i chyflwyno, yn ogystal â'r angen am amser ac adnoddau, wedi eu datgan yn glir gyda'r holl ymarferwyr yn cyfrannu.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno mai elfennau gorfodol yr arweiniad (y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) yw'r rhai cywir? A oes yna unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------	---------------	-------------------------------------	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae cynnwys gorfodol y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, o fewn ei gamau datblygiadol eang, yn briodol i gefnogi pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, efallai bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ystod oedran ar gyfer y cam datblygiadol a theitl pob un ohonynt. Yn benodol, mae defnyddio'r term 'y glasod' ar gyfer dysgwyr wedi ei bennu ar hyn o bryd i '12 oed ac yn hŷn' yn y canllawiau hyn, tra diffinnir yn gyffredinol bod y glasod yn dechrau pan fydd plentyn yn 10 oed ac yn parhau

hyd at 24 oed. Gallai cysylltu'r glasoed â 12 oed ac yn hŷn gamarwain ymarferwyr a bod yn anghyson â dysgu proffesiynol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Yn ychwanegol, defnyddir y gair 'tua.... oed' wrth gysylltu ag oedran o ran datblygiad, ond efallai ei bod yn well cyfeirio at '... oed, yn nodweddiadol'.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo ymarferwyr wrth ddylunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
-------------------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------	---------------	-------------------------------------	----------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb:

Mae'r canllawiau'n cynnig gwybodaeth addas a pherthnasol a allai fod yn fuddiol i ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm lleol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhoddir pwyslais clir ar ddull ysgol gyfan, ac fe gaiff yr holl ymarferwyr eu cynnwys ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad. Yn benodol, nodir cysylltiadau cryf â'r Datganiadau Beth sy'n Bwysig ym maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles.

Cwestiwn 8 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau statudol drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae'r canllawiau'n cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr iaith ofynnol. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried gwneud y gofyniad i sicrhau bod cyngor a chanllawiau ar gael yn ddwyieithog.

Dylai ymarferwyr fod yn ystyriol o gapasiti llai i ddarparu adnoddau yn Gymraeg wrth ddefnyddio deunydd nad yw'n cael ei greu yng Nghymru.

Cwestiwn 9 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y canllawiau statudol drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

I gefnogi datblygiad y Gymraeg, dylai'r canllawiau hyn annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gefnogi disgyblion i ddatblygu a gwella eu medrau Cymraeg trwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Hefyd, bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw adnoddau datblygedig neu ddeunyddiau ategol yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn fwy effeithiol.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys adran yn y canllawiau i ysgolion sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol sy'n archwilio'r modd y mae'n rhaid i'r ysgolion hyn gyflwyno'r hawl gyffredinol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer pob dysgwr, a sut gall hyn gydfynd â'u cymeriad crefyddol.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma:

